

PROSES DDETHOL AELODAU ANNIBYNNOL NEWYDD Y BWRDD LLYWODRAETHWYR¹			
Adran	Llywodraethu		
Awdur	Clerc y Bwrdd Llywodraethwyr		
Awdurdodwyd gan:	Y Pwyllgor Enwebiadau		
Gweithredwyd gan:	Y Pwyllgor Enwebiadau		
Cyfeirnod:	PRBOG1819041		
Yn disodli:	COPBG1617/027		
Fersiwn rhif:	1	Pwyllgor cymeradwyo:	Y Pwyllgor Enwebiadau 26/2/20 Y Bwrdd Llywodraethwyr 17/7/20
Dyddiad cymeradwyo diwethaf:	8 Gorffennaf 2016 (Adolygwyd Gorffennaf 2017, Mai 2019 a Mehefin 2020)	Cofnod rhif:	Y Pwyllgor Enwebiadau 19.22.03 Y Bwrdd Llywodraethwyr 19.105.03
Statws:	Cymeradwywyd	Dyddiad gweithredu:	Mehefin 2005
Cyfnod cymeradwyo:	3 blynedd	Dyddiad adolygu:	2022

1. Y CYD-DESTUN A GOFYNION CANLLAWIAU'R PWYLLGOR CADEIRYDDION PRIFYSGOLION

Mae'r Cod Llywodraethu Addysg Uwch yn datgan fod rhaid i'r Bwrdd sefydlu Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu i ddarparu cyngor ar benodi aelodau newydd a thelerau aelodau sy'n bodoli eisoes, yn ogystal â'r cydbwysedd sgiliau sy'n ofynnol gan y Bwrdd.

Rhaid sicrhau fod gan y Bwrdd sgiliau, gwybodaeth ac annibyniaeth ddigonol, yn cynnwys trwy benodi cadeirydd annibynnol, i'w alluogi i gyflawni ei gyfrifoldebau.

Mae'r Cod Llywodraethu'n datgan fod rhaid i Lywodraethwyr warchod enw da'r Brifysgol ac, wrth wneud hynny, bydd y Bwrdd eisiau sicrhau'r safonau ymddygiad uchaf ymhlith ei aelodau, y mae'n rhaid iddynt weithredu'n foesebol bob amser ac yn unol â'r safonau ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus a dderbynnir ac er budd y sefydliad. Mae gan y Bwrdd God Ymarfer ar gyfer Llywodraethwyr i'r perwyl hwn.

Mae gan y Bwrdd ddisgrifiadau rôl ar gyfer llywodraethwyr yn ogystal ag ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau a Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Bwrdd.

2. TREFNIADAU DETHOL UNIGOLION AR Y RHESTR FER: Y BROSES

¹ Mae hyn yn cynnwys aelodau cyfetholedig allanol fel yr aelod cyfetholedig â phrofiad ym maes addysg.

- 2.1 Dilynnir y broses isod pan fo angen recriwtio aelodau annibynnol newydd i'r corff llywodraethu neu fod aelodau cyfetholedig allanol wedi'u hadnabod gan y Bwrdd, er enghraifft
- trwy swyddi gwag yn deillio oherwydd diwedd cyfnod swydd aelod neu
 - ymddiswyddiad aelod neu
 - lle mae'r Bwrdd yn gwneud penderfyniad newydd i gynyddu nifer yr aelodau mewn unrhyw gategori.
- 2.2 Bydd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu'n cymeradwyo cyhoeddi hysbyseb cyhoeddus yn gofyn am fynegi diddordeb i gael eu penodi i'r Bwrdd gan y gymuned ehangach, fel bo'n briodol. Bydd y Bwrdd hefyd yn cadw gwahoddiad agored parhaol ar wedudalennau'r Brifysgol i dderbyn mynegiadau o ddiddordeb er mwyn creu cronfa o bobl â diddordeb y gellir eu hystyried pan ddaw swyddi gwag.
- 2.3 Bydd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu wedi adnabod a nodi unrhyw sgiliau a phrofiad penodol sy'n ofynnol wrth geisio llenwi swyddi gwag a bydd y rhain yn cael eu cyfleu mewn unrhyw hysbysebion neu alwadau i fynegi diddordeb.
- 2.4 Yn dilyn derbyn enwebiadau neu fynegiadau diddordeb bydd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu, neu Gadeirydd y Pwyllgor yn gweithredu ar ran y Pwyllgor, mewn ymgynghoriad gyda'r Is-ganghellor a'r Prif Weithredwr a'r Is-gadeirydd neu aelod o'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu, yn adolygu'r rhestr unigolion.
- 2.5 Bydd sgiliau ac arbenigedd enwebeion neu unigolion sydd wedi mynegi diddordeb yn cael eu gwerthuso yn erbyn y sgiliau a phrofiad a ddeisyfir a bydd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu, neu lle bo'n berthnasol Gadeirydd y Pwyllgor yn gweithredu ar ran y Pwyllgor, yn cadarnhau'r rhestr fer derfynol.
- 2.6 Darperir copi o ddisgrifiad rôl aelodau'r Bwrdd a gwybodaeth berthnasol arall i unigolion ar y rhestr fer.
- 2.7 Trefnir cyfarfod dechreuol gyda'r Is-ganghellor a'r Prif Weithredwr i ddarparu cyfle i ymgeiswyr ddysgu rhagor am y Brifysgol a dod i gytundeb ar y cyd p'un ai i fwrw ymlaen gyda diddordeb yr ymgeisydd mewn cyfarfod ail gam a ddisgrifir isod yn 2.10.
- 2.8 Bydd cyfarfodydd unigol gydag unigolion ar y rhestr fer yn cael eu trefnu gyda Chadeirydd y Bwrdd, yr Is-ganghellor a'r Prif Weithredwr ac aelodau eraill y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a/neu aelodau'r Bwrdd, yn unol â'r hyn sy'n briodol ym marn Cadeirydd y Pwyllgor.
- 2.9 Yn unol â disgresiwn Cadeirydd y Pwyllgor gall y Clerc wneud cais am eirdaon ar gyfer pob unigolyn a ddetholwyd cyn yr argymhelliad terfynol / cadarnhau penodi. Hefyd, yn unol â disgresiwn Cadeirydd y Pwyllgor, gellid gofyn i enwebeion lofnodi ymrwymiad o ran eu henw da, a bydd y Cadeirydd yn penderfynu a oes angen i ymrwymadau o'r fath gael eu hadnewyddu ac ar ba sail.
- 2.10 Yn dilyn y trafodaethau bydd y rhai fu'n ymwneud â'r panel penodi, yr Is-ganghellor a'r Prif Weithredwr ac unrhyw unigolion eraill fu'n ymwneud â'r broses, yn cadarnhau'r argymhellion terfynol i'w gwneud yn y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu ac, yn dilyn hynny (a lle bo'n berthnasol, yn ddarostyngedig i Gadeirydd y Pwyllgor yn derbyn geirdaon boddhaol) cyflwynir argymhellion penodi Enwebeion gan y Pwyllgor i'r Bwrdd Llywodraethwyr yn ei gyfarfod nesaf.

- 2.11 Gan mai nifer fechan o gyfarfodydd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a gynhelir yn ystod y flwyddyn a'r angen am hyblygrwydd, gellir defnyddio'r trefniadau isod pan fo'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu'n penderfynu fod hynny'n briodol:

Yn dilyn cymeradwyo hynny'n benodol gan y Bwrdd ymlaen llaw, ar ôl cymeradwyo'r enwebiadau gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu, gall Cadeirydd y Pwyllgor ofyn i'r Clerc ofyn am gymeradwyaeth y Bwrdd i'r enwebiadau gael eu cymeradwyo trwy eu dosbarthu i'r aelodau. Os nad yw'r aelodau'n cyflwyno unrhyw wrthwynebiadau yn dilyn eu dosbarthu, gall Cadeirydd y Bwrdd hefyd weithredu ar ran y Bwrdd i gadarnhau penodi aelodau newydd perthnasol yn weithredol ar unwaith, yn cynnwys eu cyfranogiad llawn ym mhwyllgorau'r Bwrdd y cawsant eu henwebu iddynt a'u cymeradwyo i fod yn aelodau ohonynt.

3. MEINI PRAWF DETHOL

Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr yn ceisio cadw cydbwysedd sgiliau, arbenigedd a phrofiad ymhlith ei aelodaeth sy'n ei alluogi i ddarparu arweinyddiaeth i'r Brifysgol a gweithredu trosolwg effeithiol ei faterion. Mae'r Bwrdd yn ceisio cael gwared ar unrhyw rwystrau a allai atal pobl rhag mynegi diddordeb mewn bod yn aelod o'r Bwrdd, ac mae'n croesawu ceisiadau gan bobl o bob cefndir i'w hystyried ar gyfer eu penodi, gyda'r nod o sicrhau cydbwysedd aelodaeth sy'n adlewyrchu amrywiaeth y Brifysgol, ei gweithgareddau a'r rhanbarth.

Bydd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu yn ystyried yr isod wrth benderfynu ar ei argymhellion:

- 3.1 A yw'r unigolyn yn ddigon annibynnol ac yn gymwys i'w benodi, gan gyfeirio at y Canllawiau Annibyniaeth a'r Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu?
- 3.2 A yw'r unigolyn yn dod â sgiliau neu arbenigedd newydd i'r Bwrdd, neu a yw'n cryfhau ymhellach yr arbenigedd sy'n bodoli eisoes, lle bo angen cymorth ychwanegol o'r fath?
- 3.3 A yw'r unigolyn yn ymddangos fel petai'n cefnogi Gweledigaeth a Chenhadaeth Prifysgol Glyndŵr Wrecsam fel y'i mynegir ar hyn o bryd, ac a fyddai'n dod â syniadau newydd i ddatblygu a gwella cyfeiriad strategol y Brifysgol ymhellach?
- 3.4 A oes gan yr unigolyn unrhyw brofiad blaenorol o lywodraethu, p'un ai mewn Addysg Uwch, ym maes addysg yn gyffredinol neu yn y sector cyhoeddus/preifat?
- 3.5 A yw'r unigolyn yn ymddangos fel petai'n meddu ar y potensial i'w benodi fel Cadeirydd neu Is-gadeirydd Pwyllgor neu Gadeirydd neu Is-gadeirydd y Bwrdd yn y dyfodol?
- 3.6 A yw'r unigolyn yn meddu ar y sgiliau a'r arbenigedd a fydd yn cynorthwyo'r Bwrdd gyda'i weithrediadau, ac a allai gynnwys y sgiliau hanfodol a dymunol, a adolygir yn gyfnodol, fel y nodir yn Atodiad 1?
- 3.7 A yw'r unigolyn yn ymddangos fel petai ganddo'r potensial i arddangos y rhinweddau a nodir yn y Cod Llywodraethu Addysgu Uwch: gofyn cwestiynau'n ddeallus, trafod yn adeiladol, herio'n drwyadl, penderfynu'n ddiangerdd a bod yn sensitif i farn pobl eraill, y tu mewn a'r tu allan i gyfarfodydd y corff llywodraethu?

- 3.8 A yw'r unigolyn yn barod i ymrwymo i oddeutu 20 diwrnod y flwyddyn i lywodraethu'r Brifysgol, yn cynnwys bod yn bresennol yng nghyfarfodydd ffurfiol y Bwrdd a'r Pwyllgor, diwrnodau cwrdd i ffwrdd i Lywodraethwyr, ciniawau ffurfiol a digwyddiadau swyddogol/cymdeithasol a chyfarfodydd gyda uwch swyddogion yn ymwneud â'r sector Addysg Uwch, e.e. Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Llywodraeth Cymru ac ati?
- 3.9 A yw'r unigolyn yn fodlon cymryd rhan mewn hyfforddiant cynefino a digwyddiadau datblygiad Llywodraethwyr addas ac ymgysylltu gyda'r Clerc / Cadeirydd / Cadeiryddion Pwyllgorau ynghylch unrhyw ymholiadau a mynychu digwyddiadau yn y Brifysgol neu rai a drefnir mewn lleoliadau eraill gan gyrrff allanol megis y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion ac ati?

4. Aelodau cyfetholedig Pwyllgor

- 4.1 Wrth chwilio am aelodau cyfetholedig mae angen ystyried y sgiliau a'r profiad sy'n ofynnol ar gyfer y pwyllgor lle mae swydd wag, ac a oedd gan yr unigolyn y potensial i'w benodi i'r Bwrdd llawn maes o law. Gallai fod yn briodol, yn ystod y broses chwilio am aelodau annibynnol i'r Bwrdd, penodi ymgeisydd fel aelod cyfetholedig pwyllgor yn gyntaf, i adeiladu gwybodaeth a phrofiad, fel llwybr i ddod yn aelod llawn o'r Bwrdd.

5. Aelodaeth y Pwyllgor Archwilio

- 5.1 Wrth benodi aelodau cyfetholedig i'r Pwyllgor Archwilio, neu aelodau annibynnol a allai gael eu hystyried ar gyfer bod yn aelodau neu fel Cadeirydd neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio'n benodol, bydd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu'n ystyried y canllawiau ynghylch y sgiliau, profiad a rhinweddau personol ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Chadeiryddion yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion, y Cod Ymarfer Pwyllgor Archwilio Addysg Uwch.

Adolygiad

Cytunwyd ar y broses gan y Pwyllgor Enwebiadau 27/6/05 (cofnod 04.17)

Diweddarwyd 8 Mai 2006 (cofnod 05.14)

Diweddarwyd 25 Mehefin 2007 (cofnod 06.12)

Adolygiwyd a diweddarwyd 11 Chwefror 2008 (Minute 07.15)

Diwygiwyd gan gyfeirio at Brifysgol Glyndŵr Gorffennaf 2008 a chyfeirio at Lawlyfr y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion i

Aelodau Pwyllgor Archwilio – Meini Prawf Dethol

Diweddarwyd 21 Mehefin 2010 (cofnod 09.19)/Cymeradwywyd gan y Bwrdd 16 Gorffennaf 2010(09.110.04)

Diweddarwyd 15 Mawrth 2013 (cofnod 12.11.01)/Cymeradwywyd gan y Bwrdd 12 Gorffennaf 2013

Diweddarwyd 23 Mehefin 2016 (15.37)/Cymeradwywyd gan y Bwrdd 8 Gorffennaf (15.96.04)

Diweddarwyd 29.8.16 (16.10)/Cymeradwywyd gan y Bwrdd 14/10/16 (cofnod 16.19.03)

Diweddarwyd 9/11/17 (17.09)/ Cymeradwywyd gan y Bwrdd Tachwedd 2017 (cofnod 17.45.04)

Diweddarwyd 2/5/19 (18.18.01)/Cymeradwywyd gan y Bwrdd Mai 2019 (cofnod 18.93.02)

Diweddarwyd 25/6/20 (19.22.03)/Cymeradwywyd gan y Bwrdd Gorffennaf 2020 (cofnod 19.105.03)

Sgiliau Hanfodol a Dymunol ar gyfer aelodau Annibynnol y Bwrdd

Hanfodol

Cyllid (cyfrifoldeb am drosolwg ariannol corfforaethol mewn sefydliad mawr)

Cyfrifeg / Archwilio (cyfrifydd cymwysedig)

Addysg Uwch (ansawdd a safonau academaidd)

Rheoli Risgiau

Sector Preifat / Busnes

Sector Cyhoeddus

Ystadau (cyfrifoldeb am brosiectau cyfalaf mawr)

Adnoddau Dynol (profiad o reoli a datblygu gweithlu mewn sefydliad mawr)

Y Gymraeg a'r diwylliant Cymreig

Gwybodaeth ac ymgysylltu rhanbarthol

Dymunol

Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd

Y Gyfraith

Y Trydydd Sector

Dylanwadu / Iobio / rhwydweithio

Ymchwil

Marchnata a Chyfathrebu

Cytunwyd Tachwedd 2017

.